Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

# Brexit a Chydraddoldebau

Casgliadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn deillio o'u gwaith ar y cyd

Hydref 2018

## Y cefndir

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cynnal ymchwiliad i Hawliau Dynol yng Nghymru, gan gynnwys effaith penderfyniad y DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar hawliau dynol.

Yn flaenorol, bu'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn trafod rhai o oblygiadau Brexit o ran cydraddoldeb a hawliau dynol wrth ymgymryd â'i waith ehangach ar y goblygiadau i Gymru yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Ar 26 Chwefror 2018, cynhaliodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol gyfres o drafodaethau panel ynghylch effaith Brexit ar gydraddoldebau yng Nghymru.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Nicola Williams, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru
- Gideon Calder, Equality Trust

- Dr Koldo Casla, Just Fair
- Dr Panos Kapotas, Prifysgol Portsmouth
- Yr Athro Simon Hoffman, Prifysgol Abertawe
- Rhian Davies, Anabledd Cymru
- Andrew White, Stonewall
- Uzo Iwobi, Cyngor Hiliaeth Cymru

Mewn ymateb i'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y sesiwn honno, cytunodd y ddau bwyllgor i anfon llythyr ar y cyd at y Prif Weinidog yn amlinellu eu safbwyntiau, eu casgliadau a'u hargymhellion. Nid oedd dau aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cytuno â chasgliadau nac argymhellion y llythyr: Janet Finch-Saunders AC a Gareth Bennett AC.

Darperir y llythyr hwnnw yn Atodiad A.

Darperir ymateb y Prif Weinidog yn Atodiad B.

Yn dilyn hynt Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiddymu'r Ddeddf Cyfraith sy’n Deillio o’r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol at y Prif Weinidog i ofyn am eglurhad ynghylch goblygiadau'r datblygiadau hyn ar gyfer cydraddoldebau a Brexit yng Nghymru. Darperir y llythyr hwn yn Atodiad C.

Darperir ymateb y Prif Weinidog i gais Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol am eglurhad yn Atodiad D.

Cafodd canfyddiadau'r ddau bwyllgor eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Hydref 2018.

# Atodiad A

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru

5 Ebrill 2018

Annwyl Prif Weinidog,

**Goblygiadau Brexit o ran cydraddoldeb a hawliau dynol**

Mae gan Gymru hanes anrhydeddus o ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol mewn ffyrdd blaengar ac arloesol, a hynny hyd yn oed yng nghyd-destun setliad datganoli cyfyngedig. Mae Cymru wedi mynd y tu hwnt i wledydd eraill y DU ac wedi bod ar flaen y gad yn y meysydd hyn: yn 2003, y Cynulliad oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y byd i gyflawni cydraddoldeb rhwng y rhywiau; yn ddiweddarach, pasiwyd *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011*.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi gwneud gwaith ar oblygiadau Brexit yng Nghymru o ran cydraddoldeb a hawliau dynol.

Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a'r dystiolaeth lafar a ddarparwyd i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a'r dystiolaeth lafar a ddarparwyd i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar gael ar wefan y Cynulliad. Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r safbwyntiau, y cwestiynau a'r argymhellion a ddeilliodd o'r dystiolaeth a gafodd y ddau bwyllgor. Nid yw dau Aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, sef Gareth Bennett AC a Janet Finch-Saunders AC, yn cytuno â'r safbwyntiau a'r argymhellion sydd wedi'u nodi yn y llythyr hwn.

**Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE**

Yn dilyn ein sesiynau tystiolaeth, did ydym eto wedi ein hargyhoeddi ynghylch honiad Llywodraeth y DU, yn ei dadansoddiad fesul hawl o'r Siarter, fod holl hawliau'r Siarter eisoes wedi'u diogelu gan gyfraith ddomestig y DU. Fel y mae cyngor cyfreithiol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn ei nodi: "...contrary to the [UK] Government's analysis, the Charter has created valuable new rights, and extended the scope of existing rights, and could continue to do so if Charter provisions were incorporated into domestic law".

Rydym yn croesawu'r cam o gynnwys adran 7 yn y *Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)*, a fyddai'n golygu bod yn rhaid dehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn unol â'r Siarter Hawliau Sylfaenol.

Os nad yw'r Bil hwn yn mynd rhagddo am unrhyw reswm, **hoffem weld Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn sicrhau bod hawliau'r Siarter yn parhau i gael eu gweithredu yng Nghymru.**

**Cyllid**

Clywsom bryderon ynghylch dyfodol trefniadau cyllido'r UE gan nifer o sefydliadau. Yn ei hymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, nododd Llywodraeth Cymru:

> "Ar hyn o bryd, bydd Cymru'n cael £370 miliwn y flwyddyn gan yr Undeb Ewropeaidd i'w fuddsoddi yn Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020 [sy'n cynnwys Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop]. [...] Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd (EO a GM) yw un o'r tair thema drawsbynciol sydd wedi'u cynnwys yn rhan o Raglenni 2014-2020".

Mae gwaith ymchwil a wnaed yn ddiweddar gan y Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar sut y bydd cyllid yr UE ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael ei ddisodli ar ôl Brexit yn tynnu sylw at y ffaith bod amcanion 8, 9 a 10 [o Raglen Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yr Undeb Ewropeaidd] yn ymwneud yn

uniongyrchol â chydraddoldeb a hawliau dynol, ac y bydd y cyllid hwn yn werth £4.15 biliwn yn y DU rhwng 2014 a 2020. Y grwpiau targed ar gyfer y tri amcan hyn yw: pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs), pobl sy'n 50 oed neu'n hŷn, menywod, pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig, pobl â rhwystrau cymhleth lluosog, troseddwyr a chyn-droseddwyr.

Canfu'r gwaith ymchwil fod cyllideb Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn £1.4 biliwn yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae oddeutu 60 y cant o brosiectau sy'n cael eu hariannu drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn targedu pobl sydd ag un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig sydd wedi'u nodi yn *Neddf Cydraddoldeb 2010*. Canfu hefyd fod mwy na hanner y cyllid a geir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn targedu cyflogadwyedd, sgiliau a phrofiad.

Mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol eisoes wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch dyfodol y cyllid a geir o Gronfa Gymdeithasol Ewrop fel rhan o'i ymchwiliad i ddyfodol polisi rhanbarthol yng Nghymru. Yn ddiweddar, gwnaeth y Pwyllgor argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru "geisio eglurder gan Lywodraeth y DU ar sut y byddai'r Gronfa Rhannu Ffyniant arfaethedig yn cael ei dyrannu a'i gweinyddu".

**Rydym yn rhannu safbwynt ein tystion y dylai'r Gronfa Rhannu Ffyniant y mae Llywodraeth y DU wedi'i chynnig gael ei gweinyddu yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, a hynny er mwyn sicrhau ei bod yn ymateb i anghenion ac anghydraddoldebau lleol. Rydym hefyd o'r farn y dylid defnyddio'r Gronfa hon i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol.**

## Cymru yn arwain y byd

Fel yr amlinellir uchod, mae gan Gymru hanes o fynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol o ran safonau cydraddoldeb a hawliau dynol. Gwnaeth rhai o'r tystion awgrymiadau ynghylch sut y gellid cynnal y traddodiad hwn, fel:

- **cychwyn dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Ddeddf Cydraddoldeb**, sy'n bŵer a gaiff ei ddatganoli ym mis Ebrill o dan y setliad newydd. Byddai'r

ddyletswydd hon yn gosod gofyniad ar gyrff cyhoeddus i wneud penderfyniadau mewn modd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran deilliannau sy'n cael eu hachosi gan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Alban ar hyn o bryd yn y broses o gyflwyno'r ddyletswydd;

- **ymgorffori rhagor o gytundebau hawliau dynol rhyngwladol.** Yn ôl yr Athro Simon Hoffman, byddai'n bosibl defnyddio'r model 'sylw dyledus' sydd i'w weld yn y *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* i osod gofyniad ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i roi sylw dyledus i gytundebau rhyngwladol eraill (er enghraifft, y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR), neu'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD)).

Mae cysylltiad digamsyniol rhwng anghydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru, ac mae bron chwarter y boblogaeth yn byw mewn tlodi. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei safbwynt diweddaraf ynghylch cyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, o gofio y bydd y pŵer i wneud hynny yn cael ei ddatganoli o dan y setliad newydd. Rydym hefyd yn nodi'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth yr Alban i gyflwyno'r ddyletswydd, a bod ei hasesiad effaith ariannol wedi dod i'r casgliad a ganlyn: "...it has no significant financial effect of the Scottish Government, local authorities or on business".**

**Rydym hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth i'r posibilrwydd o ymgorffori rhagor o gytundebau hawliau dynol rhyngwladol yng Nghymru, yn yr un modd â'r *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc*.**

**Cymalau di-atchweliad**

Rydym yn nodi bod adran 3(2) o'r *Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)* yn datgan bod yn rhaid i Weinidogion Cymru 'geisio' parhau â'r hawliau, y pwerau, y rhwymedigaethau a'r rhwymedïau sydd ar gael yn rhinwedd *Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972*.

Rydym hefyd yn nodi bod adran 4(2) o'r Bil yn cyfyngu'r addasiadau y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud i ddeddfiad presennol mewn cysylltiad â'i ailddatgan. Gall Gweinidogion Cymru ond wneud addasiadau o'r fath os ydynt yn "ystyried bod yr addasu neu'r ddarpariaeth bellach yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y deddfiad ailddatganedig ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd".

Er ein bod yn dehongli'r adrannau hyn, i bob pwrpas, fel cymalau 'di-atchweliad' (cymalau a gefnogwyd gan nifer o'n tystion), **rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau mai bwriad y darpariaethau hyn yw sicrhau nad yw'r hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd (yn enwedig y safonau cydraddoldeb a hawliau dynol sydd o fewn cymhwysedd datganoledig y Cynulliad) yn cael eu tanseilio neu eu diddymu o ganlyniad i Brexit—naill ai gan Lywodraeth y DU yn gweithredu o dan *Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, neu gan Weinidogion Cymru yn gweithredu o dan Fil y Cynulliad.**

**Dilyniant cyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol y tu hwnt i Brexit**

Mynegodd nifer o dystion bryder na fyddai dinasyddion y DU yn elwa o ddeddfwriaeth hygyrchedd a wneir yn y dyfodol gan yr UE, fel Deddf Hygyrchedd Ewrop, sydd â'r nod o gael rhagor o nwyddau hygyrchedd ar y farchnad, gan leihau rhwystrau i addysg a'r farchnad lafur agored a gwella hygyrchedd ar gyfer ffonau clyfar, peiriannau ATM ac offer teledu.

Rydym yn nodi bod adran 11 o'r *Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)* yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cyflwyno deddfwriaeth newydd neu'n addasu deddfwriaeth gyfredol er mwyn sicrhau bod Cymru'n cadw'n wastad â deddfwriaeth sy'n cael ei phasio gan yr UE ar ôl i'r DU adael yr UE. Os yw'r Bil yn destun ddeddfiad, **gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn i flaenoriaethu mesurau i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol (cyn belled ag y bo modd). Rydym hefyd yn ailadrodd galwad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau bod Llywodraeth Cymru yn "sefydlu mecanwaith ffurfiol i olrhain datblygiadau yn y dyfodol o ran hawliau**

**dynol a chydraddoldeb yn yr UE, i sicrhau bod dinasyddion Cymru yn elwa o'r un lefel o ddiogelwch â dinasyddion yr UE". Credwn y dylai mecanwaith o'r fath fod ar gael i'r cyhoedd.**

Yn wahanol i'r sefyllfa mewn llawer o wladwriaethau eraill, nid yw'r hawl i gydraddoldeb yn y DU wedi'i ddiogelu gan fil o hawliau cyfansoddiadol, a fyddai'n cyfyngu i ba raddau y gall unrhyw ddeddfwriaeth yn y Senedd danseilio neu ddileu cydraddoldeb. Ar hyn o bryd, mae cyfraith yr UE yn darparu'r swyddogaeth 'wrth gefn' hon drwy sicrhau nad oes modd dileu na thanseilio'r hawliau sydd wedi'u nodi yn y *Ddeddf Cydraddoldeb* (gan eu bod yn ofynnol yn ôl cyfraith yr UE). Mae Erthygl 14 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ond yn cyflawni'r un swyddogaeth yn rhannol; mae'n berthnasol dim ond pan fo hawl arall sy'n perthyn i'r Confensiwn ar waith, ac ni ellir gwrthod deddfwriaeth Senedd y DU am beidio â chydymffurfio ag Erthygl 14 (yn wahanol i'r sefyllfa o ran cyfraith yr UE).

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ymgyrchu dros gael hawl cyfansoddiadol, annibynnol i gydraddoldeb (drwy ddiwygio *Deddf Hawliau Dynol 1998* neu *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*) fel rhan o'i gynllun pum pwynt ar gyfer Brexit.

Ar 9 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU restr o'r meysydd a ddelir ar lefel Ewropeaidd ar hyn o bryd lle mae'n dymuno gweld Senedd y DU yn cadw cymhwysedd llwyr dros dro yn dilyn Brexit (yn hytrach na chael sefyllfa ddiofyn bod y cymhwysedd hwnnw'n gorwedd gyda'r deddfwrfeydd datganoledig). O ran deddfwriaeth sy'n ymwneud â thriniaeth gyfartal,[1] mae Llywodraeth y DU o'r farn ei bod yn bosibl y bydd angen fframweithiau anneddfwriaethol cyffredin, ond y bydd angen trafodaethau mwy manwl ar y mater hwn, a'i bod yn bosibl y byddant yn gymysgedd o gymhwysedd wedi'i gadw a chymhwysedd datganoledig, gan

[1] Gan gynnwys Cyfarwyddebau sy'n: gweithredu'r egwyddor o driniaeth gyfartal rhwng pobl waeth beth fo'u tarddiad hiliol neu ethnig (2000/43/EC); sefydlu fframwaith cyffredinol ar gyfer triniaeth gyfartal mewn cyflogaeth a galwedigaeth, gan wahardd gwahaniaethu oherwydd oedran, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol (2000/78/EC); gweithredu'r egwyddor o driniaeth gyfartal rhwng dynion a menywod o ran cael mynediad at nwyddau a gwasanaethau a'r cyflenwad ohonynt, ac mewn materion cyflogaeth a meddiannaeth (2004/113/EC a 2006/54/EC). Mae Erthygl 157 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE hefyd yn berthnasol yn y cyd-destun hwn.

gynnwys achosion lle mae safonau technegol sy'n deillio o gyfraith yr UE yn berthnasol.

O dan bennawd 14 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sef 'Gweinyddiaeth Gyhoeddus', mae gan y Cynulliad gymhwysedd ar hyn o bryd dros "Cyfle cyfartal mewn perthynas ag awdurdodau cyhoeddus cyfle cyfartal", (hynny yw, mewn perthynas â phob corff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, a rhai cyrff nad ydynt yn cael eu hystyried yn draddodiadol yn rhai datganoledig ond y mae Gweinidogion Cymru yn arfer rhai swyddogaethau yn eu cylch). O dan y setliad sy'n dod i rym ar 1 Ebrill eleni, mae "Cyfleoedd cyfartal", yn gyffredinol, yn fater a gedwir yn ôl. Rydym yn nodi bod eithriadau eithaf eang yn bodoli mewn perthynas â'r cymal cadw hwn, ond rydym hefyd yn nodi, yn y cyswllt hwn, y cymal cadw eang iawn sy'n bodoli mewn perthynas â chyfraith cyflogaeth. **Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru amlinellu ei safbwyntiau ar y materion a ganlyn**:

- **pa asesiad y mae wedi'i wneud ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno rhyw fath o hawl annibynnol i gydraddoldeb yng Nghymru, naill ai yn gyffredinol neu o fewn sectorau neu gyd-destunau penodol;**
- **cynnig Llywodraeth y DU i sefydlu fframwaith anneddfwriaethol i ymdrin â chyfraith triniaeth gyfartal sy'n seiliedig ar gyfraith yr UE ar draws meysydd datganoledig a meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, a sut y bydd yn mynd ati i gynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ar y mater hwnnw.**

**Y Bil Masnach**

Mae Cymal 2 o *Fil Masnach* y DU yn rhoi awdurdod i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru wneud unrhyw reoliadau y maent yn eu hystyried yn briodol at ddibenion gweithredu cytundeb masnach ryngwladol, gan gynnwys rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer addasu deddfwriaeth sylfaenol sy'n gyfraith yr UE a gedwir, (er ein bod yn nodi bod Atodlen 1 i'r Bil yn gosod rhai cyfyngiadau ar bwerau Gweinidogion Cymru yn hynny o beth).

Defnyddir y term 'ystyried yn briodol' ym *Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)* hefyd, ac mae'r term hwn wedi cael ei feirniadu am fod yn rhy eang. Yn ei ymateb

i Bwyllgor Bil Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ar y Bil Masnach, dywedodd Liberty: "...retained EU law appears to include a wide range of primary legislation relating to various EU mandates, including the *Equality Act 2010* and the *Modern Slavery Act 2015*. There are no safeguards to prevent Ministers from using this power to erode rights granted by Parliament".

O ran y pwerau sydd gan Weinidogion Cymru, rydym yn nodi y byddai'r cam o effeithio ar y Deddfau y cyfeirir atynt, neu ddefnyddio eu pwerau o dan y *Bil Masnach* i ddeddfu ym maes chyfle cyfartal neu gaethwasiaeth fodern, mewn egwyddor, y tu hwnt i'r pwerau hynny. Fodd bynnag, rydym yn ffyddiog y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio pob cyfle i ddylanwadu ar Lywodraeth y DU at ddibenion peidio â chyfaddawdu ar safonau cydraddoldeb neu hawliau dynol mewn unrhyw ffordd wrth gynnal trafodaethau ar gytundebau masnach.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, yn ei drafodaethau â Llywodraeth y DU, ofyn am ymrwymiad gan Lywodraeth y DU na fydd yn taro unrhyw gytundebau masnach y byddai eu gweithredu yn erydu unrhyw ran o'r Ddeddf Cydraddoldeb neu'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.**

**Troseddau casineb**

Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, cododd nifer o dystion bryderon ynghylch y cynnydd canfyddedig a gafwyd mewn troseddau casineb yn dilyn Refferendwm yr UE. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi fel a ganlyn: "...in the month following the EU referendum, reports show that racist or religious abuse incidents recorded by police in England and Wales increased by 41% compared to the previous year."

Mae ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ym mis Hydref 2017 yn dangos bod yr heddlu yn Lloegr a Chymru wedi cofnodi 80,393 o droseddau yn 2016-17 lle tybiwyd bod un neu fwy o'r elfennau sydd ynghlwm wrth droseddau casineb wedi bod yn ffactor ysgogol. Roedd y ffigur hwn yn gynnydd o 29 y cant o'i gymharu â'r 62,518 o droseddau casineb a gofnodwyd yn 2015-16, sef y cynnydd canrannol mwyaf a welwyd ers i'r gyfres ddechrau yn 2011-12. Dywedodd y

Swyddfa Gartref: “...the increase over the last year is thought to reflect both a genuine rise in hate crime around the time of the EU referendum and also due to ongoing improvements in crime recording by the police.”


Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y ddogfen, Mynd i’r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith ar gyfer Gweithredu. Mae'n cynhyrchu adroddiadau cynnydd blynyddol ar y mater hwn. Yn ei ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, argymhellodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru ei Gynllun Cydlyniant Cymunedol. Roedd y Llywodraeth wedi ymrwymo i ddiweddaru'r Cynllun erbyn tymor yr haf 2017, ond nid yw'r ddogfen ddiwygiedig eto wedi'i chyhoeddi. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r Cynllun Cydlyniant Cymunedol cyn tymor yr haf 2018, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn cymryd i ystyriaeth y cynnydd a welwyd yn ddiweddar mewn troseddau casineb a'r heriau newydd sy'n bodoli o ran cydlyniant cymunedol yng Nghymru.**

Rydym yn gofyn am ymatebion i'r cwestiynau a'r argymhellion hyn erbyn 17 Mai.

Yours sincerely,



John Griffiths AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau



David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad B

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

16 Mai 2018

Annwyl John a David

**Goblygiadau Brexit o ran cydraddoldeb a hawliau dynol**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar y cyd dyddiedig 5 Ebrill. Rwy'n croesawu'r gwaith y mae eich Pwyllgorau wedi ei wneud ar oblygiadau Brexit o ran cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir na ddylai'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd arwain at wanhau mesurau i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol, nac unrhyw fesurau eraill i ddiogelu nodweddion cymdeithasol, amgylcheddol neu gyflogaeth.

Nodir ymatebion manwl i'r cwestiynau a'r argymhellion isod.

**<u>Cwestiwn y pwyllgorau:</u> Rydym yn croesawu'r cam o gynnwys adran 7 yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru), a fyddai'n golygu bod yn rhaid dehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn unol â'r Siarter Hawliau Sylfaenol. Os nad yw'r Bil hwn yn mynd rhagddo am unrhyw reswm, hoffem weld Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn sicrhau bod hawliau'r Siarter yn parhau i gael eu gweithredu yng Nghymru.**

Atgyfeiriwyd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) ("y Bil CDUE") at y Goruchaf Lys gan y Twrnai Cyffredinol. Fodd bynnag, yn dilyn llwyddiant Llywodraeth Cymru i sicrhau newidiadau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU sy'n diogelu datganoli, disgwylir y bydd y Twrnai Cyffredinol yn tynnu hyn yn ôl. Bydd hyn yn galluogi'r Bil CDUE i gael Cydsyniad Brenhinol er mwyn i Weinidogion Cymru allu cymryd camau i ddiogelu'r diddymiad o'r hyn a fydd wedi hynny yn Ddeddf CDUE. O ganlyniad i'r datblygiadau hyn, disgwylir y bydd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU yn berthnasol yng Nghymru yn y dyfodol.

Ein hamcan yw sicrhau nad yw Brexit yn arwain at wanhau hawliau a'r safbwynt cyfredol. Felly, rydym yn cefnogi cynnwys diwygiadau anllywodraethol diweddar i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU a basiwyd gan yr Arglwyddi sy'n gwneud darpariaethau i'r Siarter Hawliau Sylfaenol barhau i gael ei gweithredu. Rydym ar hyn o

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 060 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 060 4400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru PS.FirstMinister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bryd yn aros am ymateb Llywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn gobeithio y bydd y DU yn ei dderbyn a fydd yn caniatáu i'r diwygiadau hyn gael eu cynnwys o fewn y Bil a thrwy hynny yn sicrhau'r status quo mewn perthynas â gweithredu'r Siarter Hawliau Sylfaenol yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi dechrau trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, drwy Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth ('GEO', sydd bellach o fewn y Swyddfa Gartref) ynghylch ymrwymo i Gytundeb Gwleidyddol a fyddai'n cymeradwyo fframwaith presennol y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thriniaeth gyfartal sydd ar waith o fewn ein gwledydd, sef Deddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 ac is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny. Ein hamcan yw sicrhau na chaiff unrhyw newidiadau deddfwriaethol eu gwneud a fyddai'n lleihau'r diogelwch parhaol presennol a ddarperir gan y ddeddfwriaeth honno.

**<u>Cwestiwn y Pwyllgorau:</u> Rydym yn rhannu safbwynt ein tystion y dylai'r Gronfa Rhannu Ffyniant y mae Llywodraeth y DU wedi'i chynnig gael ei gweinyddu yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, a hynny er mwyn sicrhau ei bod yn ymateb i anghenion ac anghydraddoldebau lleol. Rydym hefyd o'r farn y dylid defnyddio'r Gronfa hon i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Ym mis Rhagfyr 2017 cyhoeddwyd papur polisi gennym o'r enw Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit, a ategodd ein safbwynt y dylid dyrannu cyllid i Lywodraeth Cymru, a dylai'r cyllid hwnnw gael ei reoli'n llwyr gan Lywodraeth Cymru, i ddisodli cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Rydym hefyd wedi cynnal ymarfer ymgysylltu ar y papur polisi (a ddaeth i ben ar 23 Mawrth) i lywio gwaith datblygu yn y dyfodol a byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad annibynnol o'r canfyddiadau hynny yn yr haf. Bydd hyn yn parhau i gryfhau'r dystiolaeth o'r galw am bolisi a wnaed yng Nghymru yn seiliedig ar anghenion fel y trafodwyd â Llywodraeth y DU.

Rydym yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i gadarnhau y caiff datganoli ei barchu mewn perthynas â threfniadau'r dyfodol, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r gallu i deilwra cyllid y dyfodol ar gyfer ein fframwaith polisi a deddfwriaethol penodol. Mae tystiolaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth y DU i bwysleisio nad yw'r galwadau hyn yn deillio o Lywodraeth Cymru yn unig.

Rydym yn cytuno mai dim ond dull a ddyluniwyd gan Gymru a fydd yn ymateb i anghenion ac anghydraddoldebau lleol ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gydweithio mewn partneriaeth agos â chymunedau, busnesau a sefydliadau ledled Cymru i gyflawni hyn. Rydym hefyd wedi bod yn glir bod angen inni ymgorffori canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol yn well i unrhyw fodel yn y dyfodol, gan ddatblygu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ochr yn ochr â chanlyniadau economaidd mwy traddodiadol.

**<u>Argymhelliad y Pwyllgorau:</u> Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei safbwynt diweddaraf ynghylch cyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, o gofio y bydd y pŵer i wneud hynny yn cael ei ddatganoli o dan y setliad newydd.**

Dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ymdrin â'r anghydraddoldeb sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, ac i roi'r amcan hwn wrth wraidd eu polisïau a'u rhaglenni , yw'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Caiff y ddyletswydd ei chynnwys yn Rhan 1 Deddf Cydraddoldeb 2010 ond nid yw wedi cael ei defnyddio yn unrhyw le arall yn y DU tan yn ddiweddar, a hynny yn yr Alban. Mae'r pŵer i ddeddfu'r ddyletswydd yng Nghymru wedi cael ei ddatganoli ers 1 Ebrill.

Yng Nghymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yw ein hofferyn allweddol ym maes ymdrin ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol yn

arbennig y nod llesiant o Gymru fwy cyfartal.  Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant a ddyluniwyd i fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad i gyflawni pob un o'r nodau llesiant hyn, gan gynnwys Cymru fwy cyfartal.  Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu'n benodol ar gyfer hyn fel cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol.  O gofio bod gennym y ddyletswydd gyfreithiol gadarnhaol a blaengar hon yng Nghymru sy'n ymdrin ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol nid ydym wedi rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU yn ddiweddar i ddechrau'r ddyletswydd.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2017, mae Llywodraeth yr Alban wedi dechrau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a adwaenir fel Dyletswydd yr Alban Decach (the Fairer Scotland Duty).  Yn sgil penderfyniad Llywodraeth yr Alban i weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r cyfle i ailymweld â'r maes hwn gyda'r pwerau newydd a ddarparwyd gan Ddeddf Cymru, byddwn yn adolygu ein safbwynt yng nghyd-destun ein Hadolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru ac archwilio'r materion a lywiodd penderfyniad Llywodraeth yr Alban i weithredu'r ddyletswydd.  Bydd angen inni ystyried yn ofalus a fyddai'n gywir gosod dyletswyddau ychwanegol a chyfrifoldebau adrodd ar Gyrff Cyhoeddus Cymru yn arbennig pan mae gennym y ddyletswydd gyfreithiol flaengar yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.  Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrth inni fynd i'r afael â'r gwaith hwn.

**<u>Argymhelliad y Pwyllgorau:</u> Rydym hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymgorffori rhagor o gytundebau hawliau dynol rhyngwladol yng Nghymru, yn yr un modd â'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (er enghraifft, y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR), neu'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD)).**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi ystyriaeth fanwl i gytundebau rhyngwladol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig y mae'r Deyrnas Unedig yn llofnodwr iddynt, a bydd yn ceisio adlewyrchu naws a sylwedd pob confensiwn ar draws ei pholisïau a'i rhaglenni fel y bo'n briodol.  Mae'n rhaid i weithredoedd Llywodraeth Cymru gyfateb â'i rhwymedigaethau rhyngwladol, fel y nodwyd yn Adran 82 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys saith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig a lofnodwyd ac a gadarnhawyd gan blaid Gwladwriaeth y DU.

Byddwn hefyd yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y dull hwn yn fanwl, yn cyfrannu at adroddiadau cynnydd ac adolygiadau cyfnodol gyda thystiolaeth ac enghreifftiau o Gymru, yn ymgysylltu â Phwyllgorau perthnasol y Cenhedloedd Unedig yn ystod archwiliadau cyfnodol yn Geneva, ac yn ystyried sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r argymhellion a fydd yn deillio o hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau bod Cymru yn cael ei chynrychioli'n llawn ac yr ymgysylltir â hi yn ystod pob cam o'r broses adrodd.

Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn parhau i fod yn brif offeryn deddfwriaethol mewn perthynas â hyn, o gofio bod y nodau llesiant a nodwyd yn y Ddeddf yn eang o ran cwmpas ac yn darparu'r fframwaith gorau i alluogi camau gweithredu cydlynol i sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu diogelu yng Nghymru.

**<u>Cwestiwn y Pwyllgorau:</u> Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau mai bwriad y darpariaethau hyn (adran 3(2) ac adran 4(2)) yw sicrhau nad yw'r hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd (yn enwedig y safonau cydraddoldeb a hawliau dynol sydd o fewn cymhwysedd datganoledig y Cynulliad) yn cael eu tanseilio neu eu diddymu o ganlyniad i Brexit—naill ai gan Lywodraeth y DU yn**

**gweithredu o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), neu gan Weinidogion Cymru yn gweithredu o dan Fil y Cynulliad.**

Ers eich llythyr ar y cyd dyddiedig 5 Ebrill, cytunwyd y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i ddiddymu'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru), ar ôl iddo gael ei ddeddfu, yn dilyn cytundeb gyda Llywodraeth y DU ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). O ganlyniad, bydd ffocws yr ymateb hwn ar y pwerau a gynhwysir o fewn Bil y DU.

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes cryf o ddeddfu i ddiogelu safonau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae hyn yn amlwg o enghreifftiau fel Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Rydym yn bwriadu parhau ag ymrwymiad y Llywodraeth hon i'r materion pwysig hyn wrth inni ymgymryd â'r dasg o weithredu Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Nodwn gyda diddordeb, a chefnogaeth, yr egwyddorion a gyflwynwyd mewn diwygiadau anllywodraethol a basiwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi i Fil y DU sy'n cyfyngu ar gwmpas y pwerau i addasu cyfraith yr UE i'r hyn sy'n angenrheidiol.

**<u>Argymhelliad y Pwyllgorau:</u> Os yw'r Bil yn destun ddeddfiad, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn i flaenoriaethu mesurau i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol (cyn belled ag y bo modd). Rydym hefyd yn ailadrodd galwad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau bod Llywodraeth Cymru yn "sefydlu mecanwaith ffurfiol i olrhain datblygiadau yn y dyfodol o ran hawliau dynol a chydraddoldeb yn yr UE, i sicrhau bod dinasyddion Cymru yn elwa o'r un lefel o ddiogelwch â dinasyddion yr UE". Credwn y dylai mecanwaith o'r fath fod ar gael i'r cyhoedd.**

Y bwriad yw y caiff y Bil CDUE ei ddiddymu cyn hir ac felly ni fydd y pŵer yn y Bil hwnnw i wneud is-ddeddfwriaeth i gyd-fynd â chyfraith yr UE, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol, ar gael. Fodd bynnag, mae mecanweithiau deddfwriaethol eraill yn bodoli, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol a basiwyd gan y Cynulliad, i sicrhau nad yw Brexit yn arwain at hawliau pobl Cymru yn disgyn y tu ôl i'r rhai mewn gwledydd Ewropeaidd eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y DU i fonitro cynnydd hawliau dynol a chydraddoldeb yng Nghymru, gan nodi datblygiadau yn yr UE ac mewn gwledydd eraill. Mae'r Comisiwn yn y sefyllfa orau i asesu datblygiadau mewn perthynas â hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â'i Bwyllgor a'i Swyddfa yng Nghymru i ystyried y safbwynt mewn perthynas â Chymru.

Mae cynllun pum pwynt y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cynnwys camau gweithredu i sicrhau bod y DU ar flaen y gad mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau dynol drwy sicrhau bod ein cyfreithiau a'n polisïau yn cyd-fynd â safonau cydraddoldeb a hawliau dynol y dyfodol sy'n deillio o'r UE, ar ôl inni ymadael, megis Deddf Hygyrchedd yr UE, yn ogystal â gwledydd cymharol eraill.

**<u>Cwestiwn y Pwyllgorau:</u> Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru amlinellu ei safbwyntiau ar y materion a ganlyn:**
**- pa asesiad y mae wedi'i wneud ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno rhyw fath o hawl annibynnol i gydraddoldeb yng Nghymru, naill ai yn gyffredinol neu o fewn sectorau neu gyd-destunau penodol, a**

**- cynnig Llywodraeth y DU i sefydlu fframwaith anneddfwriaethol i ymdrin â chyfraith triniaeth gyfartal sy'n seiliedig ar gyfraith yr UE ar draws meysydd datganoledig a**

**meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, a sut y bydd yn mynd ati i gynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ar y mater hwnnw.**

Mae ymrwymiad cadarn i hyrwyddo cydraddoldeb a diogelu hawliau dynol wedi cael ei ymgorffori o fewn corff Llywodraeth Cymru ers datganoli. Adlewyrchir hyn yn glir mewn Deddfau olynol Llywodraeth Cymru, hyd at a chan gynnwys Deddf Cymru 2017. Adlewyrchir hyn hefyd mewn amrywiaeth eang o ddeddfwriaethau eraill Cymru yn ogystal â pholisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru ar draws pob maes datganoledig.

Yn benodol, mae gennym ddyletswydd sector cyhoeddus Cymru sy'n galluogi'r ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus i gyflawni'n well. Mae dyletswyddau penodol Cymru yn flaengar ac yn eang, gan ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb, ymgysylltu, asesiadau effaith, cynlluniau cydraddoldeb strategol ynghyd â chynlluniau cyflog a chynlluniau gweithredu a gwahaniaeth rhwng cyflogau'r ddau ryw. Mae'r dyletswyddau penodol hyn yng Nghymru yn ceisio cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn ogystal, mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rhai nad ydynt yn meddu ar y nodweddion hynny a hefyd meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rhai nad oes ganddynt y nodweddion hynny.

Yng Nghymru, mae gennym hefyd Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") sy'n ategu ymhellach ein penderfyniad i gynnal a mynd i'r afael â'n hymrwymiad i gydraddoldeb gan roi dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u dylunio i fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad i gyflawni pob un o'r nodau llesiant, gan gynnwys Cymru fwy cyfartal. Mae Deddf 2015 yn darparu'n benodol ar gyfer hyn fel cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Mae'r ddyletswydd gyfreithiol flaengar hon yn rhoi Cymru mewn safle unigryw ac yn dangos ymhellach yr ymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru, Yn sgil hyn, nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer hawl ychwanegol, annibynnol arall i gydraddoldeb a allai ddyblygu neu fynd yn groes i ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes.

Fel y nodwyd uchod, rydym hefyd wedi dechrau trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, drwy Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth ('GEO', nawr o fewn y Swyddfa Gartref) ynghylch ymrwymo i Gytundeb Gwleidyddol a fyddai'n cymeradwyo fframwaith presennol y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thriniaeth gyfartal sydd ar waith o fewn ein gwledydd, sef Deddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 ac is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny. Ein hamcan yw sicrhau na chaiff unrhyw newidiadau deddfwriaethol eu gwneud a fyddai'n lleihau'r diogelwch parhaol presennol a ddarperir gan y ddeddfwriaeth honno.

**<u>Argymhelliad y Pwyllgorau:</u> Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, yn ei drafodaethau â Llywodraeth y DU, ofyn am ymrwymiad gan Lywodraeth y DU na fydd yn taro unrhyw gytundebau masnach y byddai eu gweithredu yn erydu unrhyw ran o'r Ddeddf Cydraddoldeb neu'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.**

Rydym wedi bod yn glir yn ein papur diweddar Polisi Masnach: y materion ar gyfer Cymru ein bod yn credu mewn system deg ac effeithiol o ddiogelwch cymdeithasol i helpu pobl pan fydd angen y cymorth arnynt, ac y dylai polisi masnach gefnogi ein model cymdeithasol yn hytrach na'i danseilio. At hynny, rydym wedi gofyn am ddatblygu egwyddorion trosfwaol polisi masnach sy'n cynnwys cynnal mesurau diogelu pwysig o ran yr amgylchedd, yr economi a chymdeithas, cefnogi llesiant i bawb yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cydnabod ein cyfrifoldebau ar lwyfan y byd a hyrwyddo masnach deg a moesegol.

**<u>Argymhelliad y Pwyllgorau:</u> Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r Cynllun Cydlyniant Cymunedol cyn tymor yr haf 2018, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn cymryd i ystyriaeth y cynnydd a welwyd yn ddiweddar mewn troseddau casineb a'r heriau newydd sy'n bodoli o ran cydlyniant cymunedol yng Nghymru.**

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r cynllun cydlyniant cymunedol a'r cynllun gweithredu i fynd â'r afael â throseddau casineb. Diweddarwyd ein cynllun cydlyniant cymunedol yn ddiweddar i adlewyrchu'r cynnydd mewn troseddau casineb o ganlyniad Brexit.

Rydym yn defnyddio ein dogfen waith wrth weithio gyda phartneriaid, ac mae hyn wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar nifer o feysydd blaenoriaeth dros y misoedd diwethaf. Er enghraifft:

- Gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i ddatblygu ein rhwydwaith cyfathrebu Cydraddoldeb a Chynhwysiant, i geisio cynyddu ein heffaith ar y cyd wrth atal rhethreg negyddol.
- Gweithio gyda Heddluoedd a Phrifysgol Caerdydd ar brosiect cyffrous i ddatblygu a gwella systemau monitro tensiwn sy'n ymgorffori gwaith amlasiantaeth.
- Gweithio gyda chydweithwyr addysg wrth iddynt ddiweddaru eu canllawiau Parchu Eraill a gwrth-fwlio er mwyn i'r ddogfen gefnogi athrawon i fod yn fwy hyderus wrth ymdrin ag achosion o fwlio sy'n ymwneud â chasineb mewn ysgolion.
- Gweithio gydag aelodau o Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb i ddatblygu'r gwaith o fynd i'r afael â throseddau casineb, er enghraifft eleni rydym yn canolbwyntio ar "gyfraddau gadael cyn gorffen" (y llwybr a'r achosion a ollyngwyd rhwng cael eu hadrodd yn gyntaf, ymdriniaeth yr heddlu, ac erlyniad), troseddau casineb ar sail anabledd, a hefyd troseddau casineb sy'n ymwneud ag oedran a chamdriniaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu wyth Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i hwyluso gweithio rhanbarthol. Caiff y Cydgysylltwyr eu monitro yn erbyn y camau gweithredu sydd yn y ddogfen waith. Caiff y camau gweithredu hyn eu grwpio o dan bedwar amcan:

- Gwaith ar lefel strategol i chwalu'r rhwystrau i gynhwysiant ac integreiddio ar draws grwpiau ymylol
- Gwaith ar lefel leol i chwalu'r rhwystrau i gynhwysiant ac integreiddio ar gyfer grwpiau a chymunedau penodol
- Cefnogi mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chymunedau sydd wedi setlo yn ystod y broses integreiddio
- Cefnogi cymunedau i atal gelyniaeth ac eithafiaeth a rheoli canlyniadau

Yours sincerely



**CARWYN JONES**

# Atodiad C

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**National Assembly for Wales**
External Affairs and Additional Legislation Committee

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru

28 Mehefin 2018

Annwyl Brif Weinidog,

**Goblygiadau Brexit o ran cydraddoldeb a hawliau dynol**

Yn dilyn fy llythyr ar y cyd â John Griffiths AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ysgrifennaf i ofyn am eglurhad pellach ar un neu ddau o'r pwyntiau a godwyd.

Ers yr wythnos ddiwethaf, mae'r Senedd wedi cytuno ar destun terfynol Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Fe fyddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU, yn ystod hynt y Bil, wedi gwrthod gwelliannau Tŷ'r Arglwyddi a oedd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cynnwys Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yng nghyfraith y DU. Fe fyddwch hefyd yn ymwybodol bod y Bil wedi'i ddiwygio i ddarparu gweithdrefn graffu well ar gyfer offerynnau statudol sy'n diwygio neu'n dirymu is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan adran 2 (2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 i weithredu cyfraith yr UE. Fodd bynnag, nid yw'r weithdrefn well yn gymwys i offerynnau a wneir gan Weinidogion Cymru ac sy’n destun gwaith craffu yn y Cynulliad. At hynny, nodaf fod Llywodraeth Cymru wedi cychwyn yn ffurfiol ar y broses o ddiddymu'r Ddeddf Cyfraith sy’n Deillio o’r Undeb Ewropeaidd (Cymru) ers 8 Mehefin 2018.

Yn sgil y datblygiadau hyn, byddwn yn croesawu ymateb wedi'i ddiweddaru gennych mewn perthynas â:

- *Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE*: sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Hawliau Siarter yn parhau i fod yn gymwys yng Nghymru; a
- *Di-atchweliad*: sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau nad yw hawliau a rhwymedigaethau presennol (yn enwedig safonau cydraddoldeb a hawliau dynol mewn cymhwysedd datganoledig) yn cael eu herydu neu eu dileu o ganlyniad i Brexit.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Cymunedau a Llywodraeth Leol a byddwn yn croesawu ymateb gennych chi o fewn yr amserlenni arferol.

Yn gywir,

David F. Rees.

David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad D

**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

23rd Gorffennaf 2018

Annwyl David

**Goblygiadau Brexit o ran cydraddoldeb a hawliau dynol**

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 28 Mehefin. Gweler yr ymateb isod i'ch cais am eglurhad pellach ar bwyntiau a godwyd yn fy llythyr diwethaf.

**Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE: sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Hawliau'r Siarter yn parhau i fod yn gymwys yng Nghymru.**

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gefnogi ymdrechion yn y gorffennol i ddiwygio Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn Nhŷ'r Arglwyddi er mwyn sicrhau bod y Siarter yn cael ei hymgorffori'n llawn i gyfraith y DU ar ôl Brexit. Rydym felly'n siomedig iawn na fydd y Siarter yn rhan o gyfraith ddomestig ar ôl y diwrnod ymadael.

Mae'r ddogfen 'Charter of Fundamental Rights of the EU: Right by Right Analysis'[1] yn cyflwyno dadansoddiad Llywodraeth y DU o effaith y ffordd y mae hawliau sylfaenol yn cael eu trin yn y Bil i Ymadael â'r UE.

Gellir crynhoi safbwynt Llywodraeth y DU fel a ganlyn:

- Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio ag ymgorffori'r Siarter i gyfraith ddomestig ar y sail nad yw'r Siarter yn creu unrhyw hawliau, rhyddid nac egwyddorion newydd, ond yn hytrach yn rhestru hawliau ac egwyddorion sydd eisoes yn cael eu hamddiffyn gan gyfraith yr UE.

[1] Charter of Fundamental Rights of the EU Right by Right Analysis 5.12.2017

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Mae Llywodraeth y DU yn nodi bod y Siarter ond yn berthnasol i Aelod-wladwriaethau ar hyn o bryd wrth 'weithredu o fewn cwmpas cyfraith yr UE'.

- Mae Llywodraeth y DU yn dadlau na fydd dileu'r Siarter yn effeithio ar yr hawliau y mae unigolion eisoes yn elwa ohonynt gan nad y Siarter yw ffynhonnell yr hawliau hynny.

Mae'r ddogfen Right by Right Analysis yn awgrymu y bydd Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod hawliau'r Siarter yn parhau i gael eu hamddiffyn ar ôl ymadael â'r UE.

Dyma faterion sydd angen ystyriaeth ofalus. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i geisio sicrwydd am hawliau unigol dros y misoedd nesaf. Byddwn hefyd yn parhau i drafod y materion hyn gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

**Peidio llithro yn ôl: sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau nad yw hawliau a rhwymedigaethau presennol (yn enwedig safonau cydraddoldeb a hawliau dynol mewn cymhwysedd datganoledig) yn cael eu herydu neu eu dileu o ganlyniad i Brexit.**

Mae hawliau dynol yn rhan o DNA Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r gofyniad presennol i weithredu'n unol â chyfraith yr UE, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru weithredu yn gydnaws â "hawliau'r Confensiwn", fel sy'n cael eu hadlewyrchu yn Neddf Hawliau Dynol 1998, ac yn yr un modd ni all y Cynulliad ddeddfu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r hawliau hynny. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn parhau i ddylanwadu ar ein holl waith wrth i ni ymadael, ac mae hynny'n gwbl gywir.

Cred Llywodraeth Cymru bod y systemau sy'n rhan o'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ffordd bwysig a phriodol i bobl Cymru herio anghydraddoldeb ac anghyfiawnder ac mae hawliau'r Confensiwn sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf honno, yn gwbl gywir, yn parhau i ddylanwadu ar ei pholisïau, deddfwriaeth a phenderfyniadau. O ganlyniad rydym wedi parhau i wrthwynebu'n sylfaenol unrhyw ymgais i dynnu yn ôl o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol neu ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998.

Pan gyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn 'The Future Relationship between the United Kingdom and the European Union' ar 12 Gorffennaf 2018 felly, roeddem yn croesawu'r ffaith ei fod yn cadarnhau bod y DU wedi ymrwymo i fod yn aelod o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.[2]

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd yn cynnwys darpariaeth yn ymwneud â rhwymedigaethau rhyngwladol y tu hwnt i hawliau'r Confensiwn, ac rydym yn parhau i ymrwymo i adlewyrchu egwyddorion ein rhwymedigaethau rhyngwladol yn ein polisïau, deddfwriaeth a phenderfyniadau.

Enghraifft o'r ymrwymiad hwn yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n gosod dyletswyddau ar bersonau sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf i ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Yn yr un modd, roedd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â rhoi mwy o effaith yng

[2] The Future Relationship between the United Kingdom and the European Union – 12.07.2018, Tudalen 52

Nghymru i hawliau a rhwymedigaethau sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn atgyfnerthu ein penderfyniad i gynnal a datblygu ein hymrwymiad at gydraddoldeb drwy osod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol i osod a chyhoeddi amcanion llesiant, sy'n cyfrannu cymaint â phosib i gyflawni nodau llesiant, gan gynnwys Cymru fwy cyfartal. Bydd y camau gweithredu hyn yn helpu i sicrhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu hamddiffyn yng Nghymru.

Yn gywir

**CARWYN JONES**